



CYLCHLYTHYR 20.03.2026

Erthygl 27: Yr hawl i fywyd o safon da.

GAIR GAN MR CARBIS

Ysgol Gynradd Groes-Wen Primary School -
Calendr (ysgolgroeswen.cardiff.sch.uk)

Cawsom ymweliad gan ein AS lleol heddiw yn trafod llawer o bethau gan gynnwys yr awyrgylch hyfryd yn yr ysgol a rhannu ei bryderon ynglŷn â'r sefyllfa barcio.

Cofiwch mae hi'n bythefnos y Big Walk and Wheel. Bydd parcio i ffwrdd o'r ysgol ac yna cerdded, sgwteri neu feicio yn dal i gyfrif tuag at ein canlyniad. Pob lwc i bawb wrth i ni anelu at gyrraedd canlyniad gwych. Po wellaf y byddwn yn gwneud, y mwyaf yw'r siawns o ennill gwobr.



16 Mawrth – 27 Mawrth – plis parciwch i ffwrdd o'r ysgol a cherddwch, sgwteriwc neu feiciwch ar Rhodfa Plasdŵr fel rhan o'r fenter Big WALK and WHEEL!

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Diolch i bawb am gefnogi Dathlu Doniau - roedd yn hyfryd gweld y canu, dawnsio, ysgrifennu barddoniaeth a rygbi.

Diwrnod prysur iawn ond gwych. DIOLCH am eich holl ymroddiad i fod yn bresennol yn ystod y digwyddiadau hyn neu anfon aelod o'ch teulu.

Neges gan Mrs Tiplady.

Y tymor yma rydym wedi bod yn gweithio ar y cystadlaethau Celf a Chrefft yn ystod Clwb yr Urdd (bob nos lau). Mae croeso mawr i chi hefyd baratoi gwaith Celf a Chrefft adref a dod ag ef i mewn i'r ysgol i ni eu danfon i'r gystadleuaeth. Thema'r gwaith Celf eleni yw 'Breuddwydio.' Edrychwch ar [Rhestr Testunau 2026](#) | [Urdd Gobaith Cymru](#) am fwy o fanylion o ran y categorïau sydd ar gael a'r rheolau. Cofiwch bod rhaid bod yn aelod o'r Urdd eleni i allu cystadlu.

13/4/26 Dyddiad dod a gwaith Celf a Chrefft i'r ysgol (enw'r plentyn ar y cefn ogydd).

20/4/26 Dyddiad cau i'r ysgol gofrestru'r gwaith Celf a Chrefft.

Bydd Mrs Tiplady yn cludo'r gwaith Celf i'r gystadleuaeth ym Mae Caerdydd a'i gasglu ar ol y beirniadu os nad yw wedi cael gwobr 1af.



Rydym yn dechrau cynllunio ein digwyddiad mawr yr haf, a byddem wrth ein bodd pe bai mwy o wirfoddolwyr yn cymryd rhan. Ymunwch â cyfarfod Y Ffrindiau ar-lein ddydd Llun 23 Mawrth am 8pm i rannu syniadau neu gynnig cefnogaeth. Mae pob digwyddiad a gynhaliwn ar gyfer y plant, a gyda mwy o help gallwn wneud digwyddiad eleni yn un gwych - gyda'n gilydd yn gryfach <https://teams.microsoft.com/meet/3856778781617?p=ZrxUBS6IzwAfnuP10h>

ffrindiaugroeswen@gmail.com
Instagram, @ffrindiaugroeswen.



ysgolgroeswen@cardiff.gov.uk
Instagram: [ysgol_groeswen](https://www.instagram.com/ysgol_groeswen)
02920 598950

